

Nocturnal

Curated by/Curadwyd gan violinist Anna Tulchinskaya

Programme | Rhaglen

"In the dark, I listen to the world's slow rhythms. It's in the night when I feel most at home in myself." - Sylvia Plath, *The Bell Jar*

Emma Jean *The Sound of Sleepless Kings*

Maurice Ravel *String Quartet in F major - I. Allegro moderato*

Philip Glass *String Quartet No. 3*

Terry Riley *Sunrise of the Planetary Dream Collector*

Sinfonia Cymru: Bold, brilliant and all over Wales

We are Wales' orchestra of young talent, a collective of dynamic professional musicians under 30, from Wales and beyond. Whether performing classical masterpieces, new compositions, or collaborations with artists from folk, jazz, and beyond, we play with passion, precision, and a spirit of adventure. You'll find us where music matters most: in the heart of Welsh communities. We perform in concert halls, village pubs, schools, and care homes across Wales. We support our musicians at the start of their careers, helping them curate concerts and take the lead. The result? Performances of exceptional quality, wherever we play. Every year, we collaborate with inspiring artists like Catrin Finch, Jess Gillam, and Abel Selaocoe, blending classical music with a rich mix of styles. We also run free workshops in schools and colleges, nurturing the next generation of Welsh talent. From Aberystwyth Arts Centre to Theatr Clwyd, and our annual Cymuned tour, we bring music to every corner of Wales. If you live here, we're sure to be performing near you soon.

Sinfonia Cymru: Dewr, disglair a ledled Cymru

Ni yw cerddorfa talent ifanc Cymru, cartref i gerddorion proffesiynol a deimamig o Gymru a'r byd, pob un dan 30 oed. O berfformio cerddoriaeth glasurol i gyfansoddiadau newydd a chydweithio gyda cherddorion enwog a chyffrous, beth bynnag ry'n ni'n ei wneud, byddwn ni'n chwarae gydag angerdd, cywirdeb ac ysbryd anturus. Byddwn ni'n perfformio lle mae cerddoriaeth o bwys: yng nghanol cymunedau Cymru. Byddwn ni yn y mannau ble mae'r gynulleidfa'n teimlo'n gartrefol; canolfannau celfyddydol, neuaddau cyngerdd, tafarndai, neuaddau pentref, cartrefi gofal, ysgolion a thu hwnt. Ry'n ni'n cefnogi ein cerddorion ar ddechrau eu gyrfaedd proffesiynol. Pan mae nhw'n ymuno, ry'n ni'n eu helpu i dyfu a chymryd yr awenau. Y canlyniad? Perfformiadau o ansawdd eithriadol, lle bynnag ry'n ni'n chwarae. Bob blwyddyn rydym yn cydweithio gyda artistiaid ysbrydoledig fel Catrin Finch, Jess Gillam ac Abel Selaocoe, gan gyfuno cerddoriaeth glasurol â chymysgedd cyfoethog o arddulliau. Ry'n ni hefyd yn cynnal gweithdai am ddim mewn ysgolion a cholegau, gan feithrin y genhedlaeth nesaf o dalent cerddorol yng Nghymru. O Ganolfan y Celfyddydau Aberystwyth i Theatr Clwyd, a'n taith Cymuned flynyddol, ry'n ni'n dod â cherddoriaeth i bob cwr o Gymru. Os ydych chi'n byw yma, mae'n siŵr ein bod ni'n perfformio yn rhywle lleol yn fuan.

Meet the Players | Cwrdd â'r Offerynwyr

Anna Tulchinskaya (Violin/Ffidil)

Anna Tulchinskaya has enjoyed a versatile career as a violinist and performer. She has performed a range of chamber music, taking part in festivals such as Whittington, Delft, Cambridge Summer Music and Wonderfeel music festivals. Anna frequently tours with different ensembles, such as Manchester Collective, United Strings of Europe and Sinfonia Cymru, playing a variety of chamber music. Anna has performed chamber music in a variety of different concert halls, including Shanghai Symphony Hall, Queen Elizabeth Hall, Wigmore Hall and the Purcell Room.

Mae Anna Tulchinskaya wedi mwynhau gyrfa amrywiol fel fiolinydd a pherfformiwr, gan gyflwyno ystod eang o gerddoriaeth siambr a chymryd rhan mewn gwyliau cerdd megis Whittington, Delft, Cambridge Summer Music a Wonderfeel. Mae Anna'n teithio'n aml gyda gwahanol ensemblau, yn cynnwys y Manchester Collective, United Strings of Europe a Sinfonia Cymru, gan berfformio amrywiaeth o gerddoriaeth siambr. Mae wedi cyflwyno cerddoriaeth siambr mewn amryw o neuaddau cyngerdd, yn cynnwys y Shanghai Symphony Hall, Queen Elizabeth Hall, Wigmore Hall a'r Purcell Room.

Catherine Alsey (Violin/Ffidil)

British violinist Catherine Alsey graduated with a first class degree from the Royal College of Music in 2024, where she studied with Ani Schnarch. She was a member of Sinfonia Smith Square (formerly Southbank Sinfonia) for the 2024-2025 season, and has worked with UK orchestras including the English National Ballet, Bournemouth Symphony Orchestra, City of Birmingham Symphony Orchestra, English Touring Opera and Sinfonia Cymru. A former member of the Gustav Mahler Jugendorchester and National Youth Orchestra of Great Britain, Catherine has played in concert halls across the UK & Europe including the Royal Albert Hall (BBC Proms), Philharmonie Berlin, Concertgebouw Amsterdam and Musikverein Vienna. Alongside performing she enjoys her role as a Lead Ambassador for the Benedetti Foundation.

Enillodd y fiolinydd Brydeinig Catherine Alsey radd dosbarth cyntaf o'r Coleg Cerdd Brenhinol yn 2024, lle bu'n astudio gydag Ani Schnarch. Roedd hi'n aelod o Sinfonia Smith Square (gynt y Southbank Sinfonia) ar gyfer tymor 2024–2025, a bu'n gweithio gyda nifer o gerddorfeidd yn y DU yn cynnwys yr English National Ballet, Bournemouth Symphony Orchestra, City of Birmingham Symphony Orchestra, English Touring Opera a Sinfonia Cymru. A hithau'n gyn-aelod o'r Gustav Mahler Jugendorchester a Cherddorfa Genedlaethol Ieuencid Prydain, mae Catherine wedi perfformio ar y ffidil mewn neuaddau cyngerdd ledled y DU ac Ewrop, yn cynnwys y Royal Albert Hall (BBC Proms), Philharmonie Berlin, Concertgebouw Amsterdam a Musikverein Vienna. Ynghyd â pherfformio, mae hi'n mwynhau ei rôl fel Prif Lysgennad y Benedetti Foundation.

Isobel Neary-Adams (Viola/Fiola)

Isobel Neary-Adams studies with David Takeno at the Guildhall School of Music and Drama supported by the Countess of Munster trust and Albert Cooper trust. They cultivated a passion for chamber music at MusicWorks, Festival Resonances Academy, Maiestra and IMS Prussia Cove OCM. Recent performances include concerts with the Telyn Quartet, Errollyn Wallen, Castalian Quartet, Sinfonia Cymru, Welsh National Opera, Kaleidoscope Chamber Collective, Ensemble 360, and at Penarth Chamber Music and Wye Valley Festivals. They have also performed as a soloist with orchestras such as the Oxford Philharmonic, City of Cardiff and Oxford University Orchestras.

Mae Isobel Neary-Adams yn astudio gyda David Takeno yn y Guildhall School of Music and Drama, lle mae'n derbyn cymorth gan Ymddiriedolaeth y Countess of Munster ac Ymddiriedolaeth Albert Cooper. Datblygwyd eu hangerdd dros gerddoriaeth siambr yn MusicWorks, Festival Resonances Academy, Maiestra a'r IMS Prussia Cove OCM. Ymhlith eu perfformiadau diweddar mae cyngherddau gyda'r Telyn Quartet, Errollyn Wallen, Castalian Quartet, Sinfonia Cymru, Opera Cenedlaethol Cymru, Kaleidoscope Chamber Collective, Ensemble 360, Gŵyl Cerddoriaeth Siambr Penarth a Gŵyl Dyffryn Gwy. Maent hefyd wedi perfformio fel unawdydd gyda cherddorfeidd megis yr Oxford Philharmonic, Dinas Caerdydd a Phrifysgol Rhydychen.

William Clark-Maxwell (Cello/Sielo)

Will began his musical journey as a chorister at St George's Chapel, Windsor Castle. He started learning cello aged 10, and became a principal player in the National Children's Orchestra and National Youth Orchestra. He later studied at the Mozarteum University, Salzburg, and Jesus College, Cambridge, before gaining his Masters (with Distinction) from the Guildhall School of Music. He has performed with English Chamber Orchestra (principal cellist), Sinfonia of London, and John Wilson Orchestra, and as a concerto soloist with the Newbury Symphony and Cambridge University Orchestras. In July 2022 he performed Haydn's D major cello concerto as soloist director with the Britten Sinfonia.

Dechreuodd Will ei daith gerddorol fel aelod o'r côr yng Nghapel Sain Siôr, Castell Windsor. Dechreuodd ddysgu'r sielo pan oedd yn 10 oed, a daeth yn brif offerynnwr yn y National Children's Orchestra a'r National Youth Orchestra. Yn ddiweddarach bu'n astudio ym Mhrifysgol Mozarteum, Salzburg, a Choleg yr Iesu, Caer-grawnt, cyn ennill ei radd Meistr (gyda Rhagoriaeth) o'r Guildhall School of Music. Mae Will wedi perfformio gyda'r English Chamber Orchestra (prif sielydd), Sinfonia of London, a'r John Wilson Orchestra, ac fel unawdydd concerto gyda'r Newbury Symphony Orchestra a Cherddorfa Prifysgol Caer-grawnt. Ym mis Gorffennaf 2022 perfformiodd Concerto Haydn yn D fwyaf ar gyfer y sielo fel unawdydd cyfarwyddol gyda'r Britten Sinfonia.